

# Birchill Access Consultancy

Rwyf wedi prosesu nifer o achosion yn ymwneud â Gorchymyn Addasu Map Diffiniol dan Adran 53 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 dros y blynyddoedd, ac mae pob un wedi golygu cryn dipyn o waith archwilio mapiau a chofnodion hanesyddol, yn ogystal â dadansoddi tystiolaeth defnyddwyr o bryd i'w gilydd. Mae'r holl achosion hyn yn seiliedig ar dystiolaeth ac un esiampl o achos llwyddiannus o'r fath y deliais ag ef oedd yr hawl i ychwanegu llwybr troed newydd i gysylltu Llwybr Arfordir Cymru â thraeth Tanybwlech yn Aberystwyth. Roedd hyn yn golygu:

- Paratoi'r gorchymyn cyfreithiol terfynol yn dilyn ymgynghoriad
- Dadansoddiad manwl o'r cais, gan gynnwys archwilio hen fapiau megis mapiau'r degwm, mapiau'r ddeddf gyllid, cofnodion hen ystadau, ffotograffau a llawer mwy, gyda gwybodaeth fanwl o'u perthnasedd mewn achosion o'r fath.
- Dadansoddiad manwl o dystiolaeth defnyddwyr.
- Cynhyrchu Datganiad Achos a Phrawf o Dystiolaeth ar gyfer Ymchwiliad Cyhoeddus
- Gweithredu fel prif dyst y cyngor yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus
- O ganlyniad ychwanegwyd darn sylweddol o droedffordd gyhoeddus at y Map a'r Datganiad Diffiniol cyfreithiol.